# Trefniadau ar gyfer dechrau yn y derbyn

Mae dechrau yn y derbyn yn gam mawr ar gyfer bob plentyn a byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod y broses mor hawdd â phosib i bob un. Trefnir cyfarfod i'r rhieni/gwarchodwyr a phlant y derbyn newydd yn ystod tymor yr Haf cyn mynediad y plant i'r derbyn yn y mis Medi. Bydd hefyd sesiwn flasu i'r plant.

# Oriau'r ysgol

Bydd staff ar ddyletswydd rhwng 08:45 a 8:55 yn ystod adeg gollwng y bore ac mae ysgol yn gorffen am 3:15y.h. ar gyfer y plant hynny sydd yn y Derbyn i flwyddyn 2, ac am 3.25 ar gyfer y plant hynny sydd ym mlynyddoedd 3-6. Mae prydlondeb yn bwysig iawn a rhaid i bob disgybl fod yn yr ysgol yn barod i gofrestru cyn 9:00yb.

Dylid dod â phlant Derbyn i Flwyddyn 2 i flaen yr ysgol. Yma, bydd eich plentyn yn cael ei groesawu gan aelod o staff a'i dywys i'r dosbarth.

Amser adref, bydd staff yn tywys y plant o adeilad yr ysgol. Dylid casglu POB disgybl o'r iard ganol. Gofynnwn yn garedig i chi gadw pellter oddi wrth y staff a'r plant fel y gallwn sicrhau ein bod yn gallu trosglwyddo pob plentyn yn ddiogel i ofal ei riant/gwarcheidwad.

Gwneir trefniadau eraill ar gyfer y rheiny sy'n teithio i ysgol ar drafnidiaeth ysgol.

Yn anffodus, nid oes unrhyw le i rieni / gwarchodwyr barcio ar safle'r ysgol. Er mwyn sicrhau diogelwch pawb ar y safle, rhaid i chi barcio tu fas i'r ysgol a cherdded i gwrdd â'ch plentyn. Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau eich bod chi'n feddylgar tuag at ein cymdogion wrth barcio.







# Cinio ysgol

Ceir dewis dyddiol o stondin pasta / salad neu ginio twym. Mae'r fwydlen yn caei ei danfon adref ar ddechrau bob tymor gyda'r bwyd sydd ar gael bob dydd ac mae hefyd ar gyfrif Bluesky yr ysgol yn wythnosol. Os nad ydy eich plentyn eisiau cinio ysgol, gall ddod â phecyn cinio i'r ysgol. Mae gan BOB disgybl hawl i gael cinio ysgol am ddim.

# Byrbryd dyddiol

Rydym yn darparu diod o laeth i'r plant yn ddyddiol a dylent ddod â **<u>photel o ddŵr</u> (yn unig)** gyda nhw bob dydd. Rydym yn hapus i ail-lenwi'r botel os oes angen. Gallent ddod â darn o ffrwyth (wedi'i baratoi o flaen llaw) gyda nhw ar gyfer egwyl y bore.

Ni chaniateir unrhyw fwydydd/diodydd eraill ar wahân am becyn cinio.

**Mae'n hollbwysig eich bod yn gadael i ni wybod os oes unrhyw alergedd bwyd gyda'ch plentyn.**





# Salwch ac absenoldeb

Os ydy eich plentyn yn mynd i fod yn absennol, rhaid hysbysu'r ysgol cyn gynted ag y bo modd **<u>a chyn 9 o'r gloch.</u>** Byddwn yn cysylltu gyda chi os ydy eich plentyn yn sâl yn ystod y dydd ac felly, mae'n hollbwysig bod eich manylion cyswllt yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen.

# Meddyginiaeth

Gofynnwn yn garedig i chi geisio amseru moddion eich plentyn tu allan i oriau ysgol. Os oes angen rhoi meddyginiaeth neu bwmp asthma i'r plant yn ystod oriau ysgol, bydd angen i chi lenwi ffurflen ganiatâd a sicrhau bod enw eich plentyn ar y meddyginiaeth. Gallwch lenwi ffurflen ar-lein ar wefan yr ysgol.

